

# Minutes



## Cyd-Bwyllgor Amlogiad Gwell Gwent

---

Date: Dydd Mercher, 27 Ionawr 2021

Time: 10.00 am

Present: Councillors J Taylor (Cadeirydd), Councillor R Jeavons, S Evans, K Williams, Pratt and J Simmonds  
Steve Tom, Gareth Price (Head of Law & Regulation), Meirion Rushworth (Head of Finance), Joanne Hazlewood and Paul Dundon

Apologies: Councillors D Davies, Meredith and Moore

---

### 1 Ymddiheuriadau dros Absenoldeb

Y Cynghorwyr C Meredith ac M Moore, J Gossage, M Rushworth, K Sansom Roedd y Cynghorydd J Simmonds yn profi anawsterau technegol ac nid oedd yn gallu ymuno â'r cyfarfod

### 2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim i'w datgan.

### 3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2020 yn gofnod gwir a chywir.

### 4 Adolygiad o Ffioedd a Chynigion Cyllideb 2021

Y llynedd roedd cynnydd o 7.5%.

Yn 2021/22 rhagwelir gwarged o £471k cyn unrhyw ddsbarthiad. Mae'r Pennaeth Cyllid yn argymhell cynnal y dosbarthiad a gyllidebwyd o £950k ar gyfer 2021/22, a fyddai, yn seiliedig ar ragamcanion, yn gofyn am dynnu £478k o gronfeydd wrth gefn. Byddai hyn yn gadael £725k mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd 2021/22.

Wrth symud ymlaen, os bydd nifer yr amlogsiadau/lefelau incwm yn parhau fel y rhagwelir, neu'n gostwng ymhellach, y bwriad yw lleihau'r dosbarthiad ar gyfer 2022/23 i £450k, fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd gennym fwy o sicrwydd.

Pleidleisiodd y Pwyllgor i rewi ffioedd cyfredol ar gyfer 2021/22 a defnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu am unrhyw ddiffyg ar gyfer y dosbarthiad a gyllidebwyd yn y flwyddyn ariannol gyfredol sef 2020/21, ac yn 2021/22.

Cyflwynodd y Cynghorydd Steven Evans y cynnig i dderbyn ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd John Taylor. Cafwyd pleidlais unfrydol o blaid y cynnig.

Teyrngedau Gweledol

Dyweddod y Cynghorydd Jeavons ei fod wedi cael ei drafod mewn cyfarfod blaenorol ynglŷn â chael costau ar gyfer teyrngedau gweledol i barhau'n gystadleuol o ran yr hyn rydym yn ei gynnig, gan fod Trefnwyr Angladdau wedi rhestru hyn yn un o'r rhesymau pam y dewisodd teuluoedd Amlogsgfa Langstone dros Amlogsgfa Gwent. Dywedodd Paul Dundon y byddai'n costio tua £15k, fe bleidleisiodd y Pwyllgor a chytunodd ar y cynnig i fwrw ymlaen gyda'r gwaith gosod. Mae'r cyflenwr yng nghanolbarth Lloegr, felly bydd Paul Dundon yn trefnu i'r gwaith gael ei wneud cyn gynted ag y bydd modd i'r cwmni wneud hynny o ystyried rheoliadau Covid.

Dyweddod Paul Dundon fod Langstone / Sirhowy yn cynnig gwasanaethau 40 munud o hyd, o gymharu â'u gwasanaethau 20 munud o hyd. Cytunwyd y bydd y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf yn ystyried newid amseroedd gwasanaethau. Ar hyn o bryd mae Amlogsgfa Gwent yn rhedeg ar gapasiti o 90%.

## 5 Adroddiad y Trefnydd Angladdau

Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan y Trefnwyr Angladdau lleol.

Dyweddod S Tom ei fod yn ddiolchgar am beiriannau hylif diheintio dwylo. Mae'r cyhoedd yn gofyn a allai un gael ei osod wrth allanfa'r capel. P Dundon i weithredu hyn. Mae cyfradd heintiau amlogsfeydd Langstone a Sirhowy yn gostwng ychydig.

## 6 Adroddiad y Rheolwr

Cadarnhaodd P Dundon fod yr amlogsgfa wedi cynnal Safon Aur. Swyddog lechyd Amgylcheddol Torfaen - cydymffurfio'n llawn heb unrhyw faterion wedi'u hamlygu. Mae'n aros am yr adroddiad. Mae nifer yr amlogsiadau wedi cynyddu oherwydd Covid, 60-65 o amlogsiadau yr wythnos.

## 7 Adroddiad y Rheolwr Ionawr 2021

Yn ystod y 28 diwrnod diwethaf hyd yma, mae tua 12,500 o bobl wedi edrych ar dudalennau gwe'r amlogsgfa.

### Siartr ar gyfer Galarwyr

Mae'r amlogsgfa wedi cadw ei Safon Aur yng nghynllun meincnodi cenedlaethol y Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlogsfeydd.

### Prawf Allyriadau Blynyddol

Yn ogystal â monitro allyriadau'n barhaus, mae angen i'r amlogsgfa drefnu prawf allyriadau annibynnol blynyddol. Mae'r canlyniadau wedi'u derbyn, ac yn cadarnhau ein bod yn cydymffurfio â'n trwydded weithredu.

### Arolygiad Cydymffurfiaeth Blynyddol

Cynhaliwyd yr arolygiad blynyddol gan Uwch Swyddog lechyd yr Amgylchedd Torfaen i sicrhau cydymffurfiaeth â'n trwydded weithredu ar 8 Rhagfyr. Yn aros i dderbyn yr adroddiad llawn, ni nodwyd unrhyw faterion ar y diwrnod, felly rhagwelir y bydd cydymffurfiaeth llawn yn cael ei chadarnhau maes o law.

## 8 Rheoli Cyfleusterau

Dyweddod K Donovan, Norse fod y cerrig palmant wedi'u cwblhau. Cyfarfu â P Dundon ac edrychon nhw o gwmpas yr Amlogsgfa i weld beth ellid ei wella i'w gwneud yn fwy deniadol i'r cyhoedd. Byddant yn cyflwyno rhai syniadau yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd P Dundon yr hoffon nhw wella'r manau aros a'r toiledau a hefyd edrych ar y Llyfr Cofio. Mae pryfed heidiog hefyd yn broblem.

Dyweddod y Cynghorydd R Jeavons ei fod yn cael cyfarfodydd Covid bob wythnos a bod niferoedd gormodol wedi'u codi.

The meeting terminated at Time Not Specified